**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DC/JMHSC/00048/26

Chris Jones – Cadeirydd
Alex Howells – Prif Weithredwr
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

26 Chwefror 2026

Annwyl Chris ac Alex

Mae'r llythyr hwn yn dilyn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus a gynhaliwyd ag aelodau o Fwrdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar 12 Chwefror 2026. Diolch ichi a'ch tîm am ddod i'r cyfarfod, ac am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod; mae hwn yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod. Mae recordiad o'r cyfarfod ar gael yma: Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus Addysg a Gwella Iechyd Cymru – HEIW Public Accountability Meeting.

Mae'r llythyr hwn yn nodi fy myfyrdodau i o'r cyfarfod, a fydd yn cael eu gwerthuso mewn cyfarfodydd adolygu rheolaidd. Hoffwn gydnabod yr ymrwymiad a ddangoswyd gan eich tîm a'r drafodaeth onest ac agored a gawsom, gan gynnwys eich dulliau ar gyfer gwella hygyrchedd hyfforddiant, adfywio'r gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth, trawsnewid prosesau cynllunio a data'r gweithlu, ac ysgogi modelau gweithlu arloesol.

Gwnaeth eich sylwadau agoriadol dynnu sylw at eich rôl fel awdurdod iechyd arbennig sydd wedi'i sefydlu i ymgorffori cydlyniaeth a ffocws strategol yn y gwaith o ddatblygu'r gweithlu iechyd a gofal. Eich nod yw sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i ddysgwyr, staff, cleifion a phoblogaeth Cymru. Mae gennych 12,500 o unigolion sy'n ymgymryd â hyfforddiant, y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â gofal uniongyrchol i gleifion. Eich bwriad yw datblygu proses gynllunio ystwyth, sy'n seiliedig ar senarios, i fynd i'r afael ag anghenion y gweithlu yn y dyfodol, a hynny yng nghyd-destun newidiadau cyflym o ran technoleg a data.

Mae'r sefydliad yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diffygion o ran y gweithlu, gwella ansawdd, ac ehangu capasiti hyfforddi a darpariaeth ledled Cymru. Gwnaethoch dynnu sylw at y ffaith bod 84% o gyllideb y sefydliad yn cael ei gwario eleni ar

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

addysg a hyfforddiant. Mae'r broses gynllunio yn cael ei llywio gan ffynonellau data amrywiol, gan gynnwys cynlluniau gweithlu'r GIG ac mae ffactorau allanol hefyd yn dylanwadu arni. Roedd yr heriau a nodwyd yn ymwneud â chynllunio anghenion addysg a hyfforddiant, gan gynnwys y ffordd orau o ymateb i brinder staff nyrsio, parafeddygaeth a bydwreigiaeth, yn ogystal ag anawsterau i raddedigion o ran sicrhau swyddi yn y GIG.

Gwnaethoch gydnabod diffygion blaenorol yn ymwneud â dulliau cyfathrebu a defnyddio data, a gyfrannodd at heriau i raddedigion o ran dod o hyd i waith. Yn rhan o'ch dysgu, rydych wedi sylweddoli bod angen dealltwriaeth dynamig ac amser real o newidiadau i'r gweithlu, cymysgedd sgiliau, a bylchau recriwtio, gan dynnu sylw at bwysigrwydd atebolrwydd ac ymatebolrwydd yn y system. Rydych wedi gwella prosesau casglu a rhannu data, sefydlu gweithdrefnau ar y cyd â byrddau iechyd, a chreu grŵp gweithredol newydd i rag-weld a rheoli risgiau o ran y gweithlu. Mae cydweithio rhanbarthol gwell a chyfarfodydd rheolaidd â byrddau iechyd yn helpu i ddarparu ymatebion rhagweithiol. Mae datrysiadau bellach yn cynnwys lleoliadau rhanbarthol, cylchdroi staff, a helpu staff i symud ymlaen i fandiau uwch, i geisio cynyddu'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael i raddedigion a mynd i'r afael â bylchau yn y gweithlu. Mae'n bwysig bod y sefydliad yn datblygu gweithdrefnau a hyblygrwydd priodol i baratoi myfyrwyr ar gyfer tirwedd cyflogaeth sy'n newid.

Gwnaethom drafod sut mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cynllunio ar gyfer anghenion gweithlu'r GIG yn y dyfodol, gan gydnabod yn glir nad yw cynyddu'r niferoedd sy'n cael eu recriwtio bob blwyddyn yn strategaeth gynaliadwy. Ategwyd hyn gan yr angen i ddatblygu dealltwriaeth o ofynion sgiliau yn y dyfodol, yn enwedig o ran trawsnewid digidol a modelau gofal sy'n esblygu. Gwnaethoch gydnabod cymhlethdod rhag-weld anghenion y dyfodol, yn enwedig o ystyried bod technoleg yn newid yn gyflym ac effeithiau posibl deallusrwydd artiffisial, gan nodi hefyd eich dull ar gyfer datblygu senarios hyfyw er mwyn sicrhau parodrwydd ar gyfer amrywiaeth o bosibiliadau yn y dyfodol.

Gwnaethoch ddisgrifio gwaith sy'n mynd rhagddo i feithrin gweithlu sy'n gymwys yn ddigidol, gan gynnwys datblygu fframwaith galluoedd digidol ac offer hunanasesu. Mae dros 2,000 ohonynt wedi'u cwblhau hyd yn hyn. Mae angen gwneud rhagor o gynnydd o ran mapio rolau a sgiliau'r dyfodol, a gwnaethoch ymrwymo i gydweithio â phartneriaid fel Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddatblygu model cliriach yn ystod y flwyddyn nesaf, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ofal sylfaenol a darparu gwasanaethau yn y gymuned.

Trafodwyd y bylchau o ran gallu i gynllunio'r gweithlu mewn byrddau iechyd, yr angen am ddulliau mwy dynamig a hyblyg ar gyfer datblygu sgiliau, pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ac ymateb i anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio sydd â chydafiacheddau lluosog. Bydd angen symud tuag at ddull mwy cyffredinol a rhyngbroffesiynol i gyflawni hyn, wedi'i ategu gan ddiwygiadau o ran addysg feddygol a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff practisau cyffredinol.

Rhaid i'ch proses ar gyfer cynllunio gweithlu'r dyfodol fod yn fwy creadigol, cydweithredol ac ystwyth, gan fanteisio ar well seilwaith data a dulliau sy'n seiliedig ar senarios i ddiwallu anghenion esblygol y GIG a phoblogaeth Cymru.

Roedd y drydedd eitem ar yr agenda yn canolbwyntio ar gryfhau gallu a chapasiti arweinyddiaeth ar bob lefel yn GIG Cymru. Gwnaethoch nodi bod AaGIC wedi esblygu o gyflwyno rhaglenni unigol i arwain dull cenedlaethol ar gyfer datblygu arweinyddiaeth, sef "Unwaith dros Gymru". Er eich bod wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn, mae deallusrwydd y system yn datgelu bwlch sylweddol islaw'r lefel weithredol, yn enwedig ymhlith rheolwyr gweithredol, rheolwyr clinigol a wardiau, a thimau gofal sylfaenol. Bydd mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn hanfodol ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaethau, sicrhau llif arweinyddiaeth yn y dyfodol, a pherfformiad cyffredinol y system.

Gwnaethoch gadarnhau eich bod yn helpu'r system i symud tuag at un model cydlynus sy'n lleihau dyblygu gwaith ac yn sicrhau ansawdd. Mae'r gyfres bresennol o raglenni cenedlaethol yn cynnwys cyrsiau arweinyddiaeth ar gyfer darpar arweinwyr gweithredol a chyrsiau arweinyddiaeth glinigol achrededig, rhaglen i raddedigion, a chynigion newydd i reolwyr gweithredol a gofal sylfaenol, y cyfan wedi'u llunio gan adborth a data'r system. Mae'r galw yn cynyddu ac mae ehangu'r rhaglenni hyn yn parhau i fod yn her. Gwnaethoch dynnu sylw at y ffaith bod saith academi gofal sylfaenol wedi'u sefydlu, a'u bwriad yw cryfhau timau amlddisgyblaethol a hwyluso ffyrdd newydd o weithio ym maes gofal sylfaenol.

Rwy'n pryderu nad oes model "Unwaith dros Gymru" gwirioneddol unedig eto, gan fod pob bwrdd iechyd yn cynnal ei gyrsiau arweinyddiaeth ei hun, gan arwain at brosesau tameidiog ac anghysondeb. Gwnaethoch egluro mai cam cyntaf y dull "Unwaith dros Gymru" oedd canolbwyntio ar garfannau o uwch-arweinwyr a'r angen i ehangu i grwpiau mwy, yn enwedig rheolwyr gweithredol. Rydych yn bwriadu datblygu cwrs rheoli gweithredol newydd, wedi'i gydgynllunio â byrddau iechyd i sicrhau perchnogaeth o'r system a'i hygyrchedd, ac i drosi rhaglenni yn academi arweinyddiaeth fwy cynhwysol wedi’i hategu gan offer digidol.

Gwnaethoch gydnabod yr angen am ragor o gyfleoedd datblygu drwy brofiadau, megis secondiadau a phrosiectau arbennig, ac ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i adeiladu llwybrau cynefino a datblygu mwy cadarn ar gyfer aelodau byrddau. Codwyd cydraddoldeb hil ac amrywiaeth mewn arweinyddiaeth fel materion hanfodol, gan nodi diffyg cynnydd a data gwael ar safonau cydraddoldeb hil y gweithlu. Gwnaethoch hefyd ymrwymo i ymgorffori gofynion amrywiaeth ar draws pob rhaglen arweinyddiaeth a defnyddio data cenedlaethol i lywio'r gwaith o ddylunio cyrsiau a herio rhagfarnau systemig.

Mae mesur effeithiolrwydd rhaglenni arweinyddiaeth yn gymhleth ac yn ymestyn y tu hwnt i ddatblygu gyrfa, gan gynnwys effeithiau ehangach ar ddiwylliant, profiadau staff a pherfformiad gweithredol. Gwnaethoch ddisgrifio'r defnydd o arolwg staff y GIG fel baromedr allweddol ac ymrwymo i ehangu dulliau gwerthuso, gan gynnwys astudiaethau hydredol a dadansoddiad dyfnach o gysylltiadau rhwng arweinyddiaeth, diwylliant a chanlyniadau. Gwnaethoch dynnu sylw at y ffaith y bydd fframwaith rheoli ac arweinyddiaeth newydd y DU yn gosod disgwyliadau a reoleiddir ar arweinwyr ar bob lefel, gan hwyluso symud i un model cenedlaethol a lleihau dyblygu gwaith ar draws byrddau iechyd. Bydd y safonau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb o ran yr arlwy o raglenni arweinyddiaeth ar draws y GIG yng Nghymru ac er mwyn sicrhau newid systematig i brofiadau'r bobl hynny sy'n gweithio inni ar draws y GIG.

Yna, gwnaethom drafod sut mae AaGIC yn gweithio i gryfhau ei hun fel sefydliad a gwnaethoch nodi eich ymrwymiad i wella yn barhaus. Disgrifioch hefyd fodel gweithlu'r sefydliad, sy'n cyfuno tîm craidd â sgiliau arbenigol a nifer o swyddi tymor penodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau tymor byr, gan ddarparu hyblygrwydd i addasu i ofynion sy'n newid. Mae asesiad strwythuredig Archwilio Cymru wedi nodi prosesau llywodraethiant da ond amlinellodd hefyd yr angen i glywed lleisiau myfyrwyr yn gliriach a chanolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.


Gwnaethoch ddisgrifio eich dull ar gyfer addasu adnoddau, gweithredu fesul cam, a, phan fo angen, dadflaenoriaethu rolau neu raglenni penodol fel oedi comisiynu ar gyfer cymdeithion meddygon a chymdeithion clinigol mewn seicoleg gymhwysol pan nad yw'r galw'n ddigonol.

Yn olaf, trafodwyd dealltwriaeth y bwrdd o'r dirwedd ryngwladol, a gwnaethoch ddisgrifio eich gwaith gyda chydweithrediadau Sefydliad Iechyd y Byd ynghylch cynllunio'r gweithlu a datblygu gweithlu digidol.

Fel y crynhoais ar ddiwedd y sesiwn, roedd tair thema gyson yn sail i'n trafodaethau. Yn gyntaf, mae angen i AaGIC ddatblygu model cynllunio'r gweithlu ystwyth ac amser real er mwyn rhag-weld heriau sy'n dod i'r amlwg yn well. Yn ail, mae angen i'r sefydliad ddyfnhau ei ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng trawsnewid digidol a chynllunio'r gweithlu, gan symud y tu hwnt i niferoedd yn unig. Yn drydydd, mae angen i'r sefydliad werthuso cyfraniad hyfforddiant arweinyddiaeth at y gwaith o wella'r system gyfan, gan anelu at gael tystiolaeth gliriach o'i effaith.

I gloi, hoffwn ddiolch ichi a'ch tîm am y gwaith rydych yn ei wneud a'ch cyfraniad at y cyfarfod hwn.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care